# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 25 Mehefin 2020

Amser: 09.00 - 12.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/6385) yn:

http://senedd.tv/cy/6385

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Andrew RT Davies AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Neil Hamilton AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | Tegryn Jones, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Jerry Langford, Coed Cadw<br>Rachel Sharp, Ymddiriedolaethau Natur Cymru<br>Katie Jo Luxton, RSPB Wales<br>Jess McQuade, WWF Wales<br>Rebecca Williams, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Gill Bell, Marine Conservation Society |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Andrea Storer (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Katy Orford (Ymchwilydd)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Os byddai unrhyw broblemau technegol yn codi yn ystod y cyfarfod, gan olygu y byddai ei gyswllt band eang yn cael ei dorri, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Jenny Rathbone AS yn cymryd ei lle fel Cadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda'r sector amgylcheddol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gill Bell, Y Gymdeithas Cadwraeth Forol; Tegryn Jones, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro - yn cynrychioli'r tri Awdurdod Parciau Cenedlaethol Cymru; Jerry Langford, Coed Cadw; Katie-Jo Luxton, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru; Rachel Sharp, Ymddiriedolaethau Natur Cymru; Jess McQuade, Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF) Cymru; Rebecca Williams, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru.

## 3 COVID-19: Parhau gyda sesiwn dystiolaeth y sector amgylcheddol

3.1 Parhaodd yr Aelodau i holi Gill Bell, Y Gymdeithas Cadwraeth Forol; Tegryn Jones, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro - yn cynrychioli'r tri Awdurdod Parciau Cenedlaethol Cymru; Jerry Langford, Coed Cadw; Katie-Jo Luxton, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru; Rachel Sharp, Ymddiriedolaethau Natur Cymru; Jess McQuade, Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF) Cymru; Rebecca Williams, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**4.1 Ymateb Llywodraeth Cymru at adroddiad y Pwyllgor ar Dlodi Tanwydd yng Nghymru**

**4.2 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**

**4.3 Gohebiaeth at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020**

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1. Derbyniwyd y cynnig.

## 6 COVID-19: Trafod y dystiolaeth a daeth i law

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod eitemau 2 a 3.

## 7 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol ar gyfer Bil Amaethyddiaeth y DU

7.1 Trafododd yr Aelodau y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol ar gyfer Bil Amaethyddiaeth y DU.

## 8 Trafod adroddiad drafft y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Amgylchedd y DU

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, ac yn amodol ar fân newidiadau, cytunodd arno.

## 9 Trafodaeth ar flaenraglen waith y Pwyllgor

9.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith a chytunodd arni.